# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 13 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(71)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**

Cafodd Sandy Mewies ei hethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd cwestiynau 1, 5 i 11ac 13 i 15. Tynnwyd cwestiynau 2, 3, 4 a 12 yn ôl.

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Dechreuodd yr eitem am 14:14.

Gofynnwyd cwestiynau 1, 4, 5 a 7 i 14. Tynnwyd cwestiynau 2, 3, 6 ac 15 yn ôl. Atebwyd cwestiwn 5 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

**3. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

Dechreuodd yr eitem am 14:50.

**NDM5010 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rebecca Evans (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Keith Davies (Llafur).

**NDM5011 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Keith Davies (Llafur) yn aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Rebecca Evans (Llafur).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Un Corff Amgylcheddol

Dechreuodd yr eitem am 14:50.

**NDM5008 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad ar yr achos busnes dros un corff amgylcheddol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 1 Mehefin 2012

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15:30.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5007 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod Llywodraethau olynol Cymru wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial cronfeydd yr UE;

2. Yn mynegi pryder nad oes gwersi wedi cael eu dysgu yn sgîl methiant cylchoedd gwariant blaenorol arian Ewropeaidd ac nad yw Llywodraeth Cymru erioed wedi comisiynu adolygiad llawn o brosiectau blaenorol; ac

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phrifysgolion Cymru a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat i ddatblygu achos busnes i sicrhau y ceir yr effaith fwyaf bosibl o brosiectau Gwariant Ewropeaidd yn y dyfodol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 34 | 43 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

‘Yn nodi’r modd y mae Llywodraethau olynol Cymru, awdurdodau lleol, y sector preifat, Addysg Uwch a’r trydydd sector wedi defnyddio cronfeydd yr UE.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 13 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 13 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ar ôl ‘brosiectau blaenorol’ rhoi ‘ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o’r fath’

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl y gair ‘ddatblygu’, gan roi ‘strategaeth arloesi a fydd yn sail i raglen Horizon 2020 yr UE ar gyfer y cylch cyllido nesaf’, yn ei le.

Gellir cael gwybodaeth am raglen Horizon 2020 yr UE drwy fynd i:
http://ec.europa.eu/research/horizon2020/index_en.cfm?pg=home&video=none

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 13 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5007 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r modd y mae Llywodraethau olynol Cymru, awdurdodau lleol, y sector preifat, Addysg Uwch a’r trydydd sector wedi defnyddio cronfeydd yr UE.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phrifysgolion Cymru a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a’r sector preifat i ddatblygu strategaeth arloesi a fydd yn sail i raglen Horizon 2020 yr UE ar gyfer y cylch cyllido nesaf.

Gellir cael gwybodaeth am raglen Horizon 2020 yr UE drwy fynd i:
http://ec.europa.eu/research/horizon2020/index_en.cfm?pg=home&video=none

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 13 | 43 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16:26.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5003 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r syniadau ar gyfer dod ag adnoddau ynghyd a chydweithio i gryfhau economïau lleol fel y nodir yn 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd.'

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o ddatblygu rhaglen benodol i adfywio cymunedau a thrwy hynny sicrhau bod ganddynt ddyfodol economaidd ffyniannus a chynaliadwy.

Mae'r 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' ar gael drwy fynd i:
http://www.plaidcymru.org/cynllun-gwyrdd-ir-cymoedd/?force=2

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 35 | 43 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 17 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod ‘Cynllun Gwyrdd i’r Cymoedd’ yn cydnabod sefyllfa economaidd wael Cymoedd De Cymru.

**Gan fod gwelliant 1 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi datblygu ‘metro’r Cymoedd’ ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd a fydd yn helpu i adfywio cymunedau yng nghymoedd de Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw ‘Cynllun Gwyrdd i’r Cymoedd’ yn mynd ati’n gynhwysfawr i archwilio sut y mae datblygu’r sector preifat yng Nghymoedd De Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 8 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5003 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o ddatblygu rhaglen benodol i adfywio cymunedau a thrwy hynny sicrhau bod ganddynt ddyfodol economaidd ffyniannus a chynaliadwy.

Mae‘r ‘Cynllun Gwyrdd i’r Cymoedd’ ar gael drwy fynd i:
http://www.plaidcymru.org/cynllun-gwyrdd-ir-cymoedd/?force=2

2. Yn cefnogi datblygu ‘metro’r Cymoedd’ ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd a fydd yn helpu i adfywio cymunedau yng nghymoedd de Cymru.

3. Yn gresynu nad yw ‘Cynllun Gwyrdd i’r Cymoedd’ yn mynd ati’n gynhwysfawr i archwilio sut y mae datblygu’r sector preifat yng Nghymoedd De Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 0 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17:24.

## 7. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17:27.

**NDM5004 Sandy Mewies (Delyn): Treftadaeth – ein gorffennol a'n dyfodol**

Sicrhau bod cymunedau lleol yng Nghymru yn gallu chwarae rhan yn y gwaith o ddiogelu eu treftadaeth nawr ac yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 19 Mehefin 2012**